

CYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU

Fforwm Derbyn i Ysgolion (MS Teams)

10 Mehefin 2022

COFNODION

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Rhian Birch, Lisa Lewis, Sam Mawhinney, Mike Matthews, Anne Robertson, Rhian Andrew, Sian Lewis, Ceri Thomas, Andrew Hennessey, Cedric Burden, Sarah Owen (ar ran Trevor Brown)

YMDDIHEURIADAU: Trevor Brown, Rebecca Morteo, Jane Werrett, Nathan Slater

EITEM	MATER	CAMAU I'W CYMRYD	Aelod
1	Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol	Gwiriwyd y cofnodion am gywirdeb a chytunwyd arnynt fel cofnod cywir.	
2	Materion yn codi	Cyflwynodd L.L y Cynghorydd Rhian Birch, a fyddai'n disodli'r Cynghorydd Lis Burnett.	
3	Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth	Awgrymodd A.R ddiwygio 5.2.1 yn ymwneud â lleoliad cyfarfodydd i gynnwys y posibilrwydd parhaol o gynnal cyfarfodydd trwy MS Teams er mwyn gwella presenoldeb a thorri amseroedd teithio ac ati a symud yn unol ag awdurdodau eraill.	
4	Diweddariad ar y rowndiau derbyn blynyddol ac apeliadau (SM)	Aeth SM drwy'r crynodeb derbyniadau ysgolion ar gyfer 2022 oedd yn cynnwys derbyniadau i ddosbarthiadau meithrin, derbyn ac i ysgolion uwchradd. Amlygodd SM ardaloedd llwyddiant penodol a gyflawnodd y tîm trwy eu hymdrechion yn ogystal ag unrhyw ardaloedd sy'n peri pryder o ran y galw am leoedd nawr ac yn y dyfodol. Rhoddodd SM fanylion apeliadau a gafodd eu clywed/ sydd i'w cynnal ar gyfer pob rownd dderbyn a'r cyfraddau llwyddiant gan gymharu â blynyddoedd blaenorol hefyd. Cadarnhaodd MM y sylwadau a wnaed ac ychwanegodd rywfaint o gyd-destun o ran trefniadau sydd ar waith gydag ysgolion i reoli'r galw hwn.	
5	Data perfformiad blynyddol ar dderbyn i ysgolion	Amlinellodd SM grynodedd o dderbyniadau ysgol yn ystod y flwyddyn a sut roedd y tîm yn rheoli'r galw am grwpiau blwyddyn penodol yn y ddarpariaeth gynradd ac uwchradd. Rhoddodd SM fanylion apeliadau a gafodd eu clywed a'r cyfraddau llwyddiant, gan gymharu â blynyddoedd blaenorol hefyd.	
6	Canllaw rhieni drafft ar dderbyn i ysgolion 2023/24 i'w ystyried (MM)	Mae M.M yn esbonio'r defnydd o'r canllaw rhieni a'r diweddariadau lleiaf posibl fydd yn cael eu gwneud ar gyfer 23/24 ac yn cynghori, ar ôl newidiadau i dalgylchoedd a meini prawf mewn blynyddoedd blaenorol, ei bod bellach yn bryd	

EITEM	MATER	CAMAU I'W CYMRYD	Aelod
		<p>myfyrio ar effeithiau'r newidiadau wrth adolygu data disgyblion.</p> <p>Aelodau i ddarllen a rhoi adborth.</p>	
7	Diweddariad ar drefniadau derbyn cydlynol (MM/SM)	<p>Mae S.M yn esbonio bod y trefniadau derbyn cydlynol yn eu 4^{edd} blwyddyn gweithredu ar gyfer derbyniadau cynradd a'u 3^{edd} flwyddyn ar gyfer derbyniadau Uwchradd. Croesawodd S.M y ffaith fod Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseph yn cymryd rhan ar gyfer derbyniadau 22/23 a nododd y byddai Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Holl Saint yn ymuno ar gyfer proses dderbyniadau 2023/24.</p> <p>Mae C.T yn rhoi sylwadau ar lwyddiant y cynllun peilot o safbwynt ysgol sy'n cymryd rhan ac yn diolch i'r tîm derbyn am eu hymdrechion.</p>	
8	Diweddariad am Ffoaduriaid Wcráin (LL)	<p>Trafododd L.L y grŵp cymorth a grëwyd i roi cymorth ac arweiniad ar nifer o feysydd ar draws y cyngor a'r gweithdrefnau sydd ar waith i gefnogi'r teuluoedd hyn. Rhoddodd L.L wybod faint o deuluoedd sy'n gwneud cais am leoedd ysgol a hefyd y rhai sy'n adleoli i'r ardal yn y dyfodol agos. Disgrifiodd L.L hefyd nad yw'r broses mor syml ag ar gyfer ceisiadau derbyn cyffredinol a bod prosesau perthnasol y mae'n rhaid eu cwblhau cyn gall disgyblion fynd i leoliadau addysg.</p>	
9	Dyddiad y cyfarfod nesaf	18 Tachwedd 2022 - i'w gadarnhau	
10	Unrhyw Fater Arall	<p>Trafododd R.A sut y gallem wella hyrwyddo canllawiau ar wneud cais i rieni.</p> <p>Gofynnodd S.L am unrhyw gymorth ac arweiniad i ysgolion o ran hyrwyddo'r ysgol a'r cyfleusterau i'r rhai yn yr ardal leol.</p> <p>Dywedodd L.L fod cymorth ar gael drwy dîm Cyfathrebu'r cyngor ac i gysylltu â L.L i drafod.</p> <p>Nododd S.M gyfarfod wedi'i drefnu gydag awdurdodau cyfagos i drafod hyrwyddo canllawiau a thargedu meysydd penodol i fynd i'r afael â materion galw ac ati.</p>	